Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Penysarn
# Y Caban
# Ysgol Gynradd Penysarn
# Penysarn
# LL69 9AZ

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 05/05/2017**

## Cyd-destun

Lleolir Cylch Meithrin Penysarn mewn caban ar dir Ysgol Gynradd Penysarn ym mhentref Penysarn, ger Amlwch, yn awdurdod lleol Ynys Môn. Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 20 o blant rhwng dwy a hanner a thair blwydd oed. Mae'n cynnig sesiynau rhwng 9.00 a 11.30yb o ddydd Llun tan ddydd Iau am 39 wythnos o'r flwyddyn.

Yn ystod yr arolygiad, roedd saith o blant ar y gofrestr gyda dau o'r rhain wedi'u hariannu i dderbyn addysg y blynyddoedd cynnar. Nid oedd unrhyw blentyn ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu'r lleoliad. Lleiafrif o'r plant ddaw o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith.

Mae dau aelod o staff cymwysedig a phrofiadol yn gweithio'n llawn amser yn y cylch ac mae'r arweinydd wedi bod yn ei swydd ers Ionawr 2015.

Cafodd y lleoliad ei arolygu ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym mis Chwefror 2015 a chan Estyn ym mis Ionawr 2010.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr ymarferwyr yn cynllunio profiadau ysgogol ar draws bron pob un o'r meysydd dysgu, sy'n rhoi mwynhad i'r plant
- ymarferwyr yn rhoi sylw da i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd, a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r plant (TGCh)
- gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o bob un plentyn
- yr ymarferwyr yn fodelau iaith da ac yn hyrwyddo datblygiad ieithyddol y plant yn effeithiol
- pwyslais buddiol ar ddatblygu iechyd a lles y plant
- ymarferwyr yn cynnig profiadau gwerthfawr i hybu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant
- yr ymarferwyr yn croesawu'r plant yn gynnes, gan greu naws hwyliog, bywiog a gwresog yn y lleoliad
- ganddo gyflenwad buddiol o adnoddau diddorol sy'n ymateb i anghenion y plant yn dda

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr arweinydd yn hollol ymroddedig i gynnig addysg cyfrwng Cymraeg o'r safon gorau i'r plant
- ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol fel tîm
- aelodau'r pwyllgor a'r person cofrestredig yn rhoi cefnogaeth werthfawr i'r staff a'r plant
- yr arweinydd yn croesawu canllawiau, cyngor a chymorth gan asiantaethau allanol
- ymarferwyr yn rhannu'r un bwriad o wella safon y ddarpariaeth ar gyfer y plant yn barhaus
- ymarferwyr wedi llwyddo i feithrin partneriaethau cryf sydd o fudd iddo

## Argymhellion

A1 Cynllunio cyfleoedd rheolaidd a chyson i ddatblygu holl fedrau'r plant yn yr awyr agored

A2 Gwneud gwell defnydd o ymweliadau, ac ymwelwyr i'r lleoliad, i gyfoethogi profiadau'r plant

A3 Cryfhau'r cynllunio ar gyfer gwelliant, trwy nodi camau gweithredu clir, meini prawf llwyddiant mesuradwy, amserlen weithredu briodol a chostau pendant, a sicrhau cyfleoedd rheolaidd i fesur a gwerthuso cynnydd

A4 Ymestyn datblygiad proffesiynol yr ymarferwyr trwy ymweld â chylchoedd eraill i arsylwi ar arfer dda

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

**Safonau:**

**Lles:**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau ysgogol ar draws bron pob un o'r meysydd dysgu, sy'n rhoi mwynhad i'r plant. Maent yn seilio'r rhain ar themâu perthnasol gan gynnwys 'y fferm', 'y gwanwyn', ac ar 'lan y môr'. Mae'r rhain yn gwneud yn fawr o ddiddordeb a phrofiad blaenorol y plant i ennyn eu chwilfrydedd a'u denu nhw at y gweithgareddau yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn cyd-gynllunio'n ofalus gan sicrhau eu bod yn cynnig cyfleoedd rheolaidd a gweithredol i'r plant ddatblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd effeithiol i'r plant fentro ac arbrofi gyda phrofiadau newydd wrth baratoi a chymysgu cynhwysion i wneud crempog a chawl. Mae'r ymarferwyr yn ystyried anghenion plant unigol yn gynyddol wrth gynllunio, gan adeiladu'n briodol ar yr hyn maent yn gwybod yn barod. Fodd bynnag, nid yw'r lleoliad yn cynllunio digon o gyfleoedd ar gyfer datblygu medrau'r plant yn yr awyr agored.

Mae'r lleoliad yn rhoi sylw da i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd, a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r plant (TGCh). Maent yn darparu cyfleoedd cyson i'r plant ehangu eu geirfa, ac ymarfer eu medrau cyfathrebu a gwrando trwy gydol y sesiynau. Er enghraifft, mae'r plant yn defnyddio geirfa berthnasol ac yn ailadrodd stori Mrs Wishi Washi wrth olchi'r anifeiliaid yn y twba dŵr. Cânt ymarfer eu medrau creu marciau wrth arbrofi gyda thywod, paent a sialc. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i fwynhau llyfrau ac yn eu helpu i ddechrau adnabod eu henwau wrth iddynt gofrestru yn y boreau. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau llythrennedd cadarn. Mae datblygu medrau rhifedd y plant ar draws yr holl feysydd dysgu yn rhan amlwg o bob sesiwn, yn yr ardaloedd ac yn y tasgau ffocws. O ganlyniad, mae'r plant yn datblygu eu medrau rhifedd, gan gynnwys iaith fathemategol a'r gallu i gyfrif a chyfatebu rhif yn effeithiol. Er enghraifft, clywyd y plant yn sôn am y tatws trwm ac yn cyfrif yn naturiol wrth chwarae yn y siop. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n fwriadus i addysgu'r plant sut i reoli'r llygoden ar y cyfrifiadur ac yn cynnig cyfleoedd rheolaidd iddynt gyfarwyddo â'r tabled electronig. Rhoddir sylw priodol i ddatblygu medrau corfforol mawr y plant mewn sesiwn ymarferol wythnosol yn neuadd yr ysgol ac yn achlysurol yn yr ardal allanol.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o draddodiadau Cymreig fel Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen yn llwyddiannus. Maent yn cyflwyno profiadau addas i addysgu'r plant am ddiwylliannau eraill wrth greu canhwyllau a llusernau dathlu, a phrofi gwahanol fwydydd dros gyfnod Diwali a'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

## Addysgu: Da

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o egwyddorion y Cyfnod Sylfaen ac o ddatblygiad plant. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o bob plentyn. O ganlyniad, mae'r plant yn gwneud cynnydd da, yn enwedig yn eu defnydd o iaith a'u gallu i ddilyn cyfarwyddiadau. Mae'r ymarferwyr yn rheoli ymddygiad y plant yn gadarnhaol, gan ddefnyddio strategaethau cyson ac adeiladol, gan gynnwys defnyddio caneuon yn effeithiol i annog y plant i olchi eu dwylo neu helpu i dacluso. Maent yn fodelau iaith da eu hunain ac yn hwyluso datblygiad iaith Gymraeg y plant yn llwyddiannus. Mae hon yn nodwedd gadarn o waith y lleoliad. Trwy ymyrryd yn amyneddgar a phriodol, mae'r ymarferwyr yn cyfoethogi profiadau'r plant ac yn ymestyn eu dealltwriaeth yn effeithiol. Maent yn holi'n ystyrlon i herio'r plant i feddwl drostyn nhw eu hunain.

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd rhoi cyfleoedd i blant ddysgu trwy brofiadau gweithredol. Mae hyn yn amlwg yn yr amgylchedd deniadol ac ysgogol maent wedi ei greu yn y caban. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw'r lleoliad yn darparu digon o gyfleoedd i'r plant ddysgu yn yr awyr agored. Ar y cyfan, maent yn darparu cydbwysedd buddiol rhwng gweithgareddau y mae'r plant yn eu dewis a gweithgareddau y mae'r ymarferwyr yn eu harwain.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda. Maent yn eu hasesu'n rheolaidd ac yn cofnodi arsylwadau ac asesiadau i fesur eu cynnydd yn gydwybodol a phriodol. Yn dilyn hyfforddiant diweddar, mae'r ymarferwyr wedi dechrau defnyddio'r proffil Cyfnod Sylfaen i asesu man cychwyn y plant. Mae hyn wedi cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu eu gallu i gynllunio ar gyfer anghenion unigolion. Maent yn gwneud defnydd cynyddol o'u harsylwadau i gynllunio'n bwrpasol ar gyfer cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant yn systematig. Fodd bynnag, nid yw'r arfer hon wedi cael amser i wreiddio'n llwyr yng ngwaith y cylch eto.

Mae'r ymarferwyr yn cadw cofnodion ar y plant mewn nodiaduron, ac yn rhannu gwybodaeth am eu profiadau a'u cynnydd yn rheolaidd gyda'u rheini. Mae'r rhieni hefyd yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd anffurfiol i holi unrhyw gwestiwn wrth ddrws y lleoliad.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Ers iddynt gychwyn gweithio yn y lleoliad, mae'r ymarferwyr wedi rhoi pwyslais llwyddiannus ar ddatblygu iechyd a lles y plant. Maent wedi diwygio'r amser byrbryd yn effeithiol gan gynnig bwydydd iach yn rheolaidd ac ymestyn cyfleoedd i'r plant ddatblygu eu medrau cymdeithasol. Maent yn addysgu'r plant yn ofalus ynglŷn â hylendid personol trwy olchi eu dwylo cyn bwyta a brwsio'u dannedd yn rheolaidd. Mae'r arweinydd wedi sefydlu strategaethau buddiol a disgwyliadau cadarn ynglŷn â rheoli ymddygiad a gwarchod lles y plant. Fodd bynnag, er bod y plant yn cael cyfleoedd wythnosol i wneud ymarfer corff o dan do, nid ydynt ar hyn o bryd yn cael digon o brofiadau y tu allan, sy'n eu galluogi i fagu'r arfer o fod allan yn yr awyr iach.

Mae'r ymarferwyr yn cynnig profiadau buddiol i hybu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant. Er enghraifft, trwy annog y plant i gyflawni ei gwaith fel Helpwr Heddiw, maent yn datblygu hunanhyder a hunanddelwedd y plant yn effeithiol. Yn dilyn ymweliad gan swyddogion ailgylchu'r awdurdod lleol, mae'r lleoliad yn dysgu arferion da i'r plant trwy ddechrau ailgylchu ac ailddefnyddio yn rhan feunyddiol o'i waith. Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd cymwys i'r plant ddatblygu eu dealltwriaeth o'u diwylliant a'u hunaniaeth; er enghraifft, maent yn cyflwyno hwiangerddi traddodiadol a dysgu am arferion a dathliadau cynhenid, fel y Nadolig. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Er nad oes unrhyw blentyn ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu'r lleoliad ar hyn o bryd, mae yna drefniadau effeithiol i ymateb yn briodol pan fyddo'r angen yn codi. Mae'r ymarferwyr yn cadw cofnodion o arsylwadau yn rheolaidd. Mae'r rhain yn cyfrannu'n effeithiol at amlygu unrhyw anghenion ychwanegol yn brydlon. Mae gan yr arweinydd bartneriaeth adeiladol gyda Mudiad Meithrin ac athrawes gyswllt yr awdurdod lleol ac mae hi'n gwneud yn fawr o'r cymorth, cyngor a gwybodaeth maent yn eu cynnig.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn croesawu'r plant yn gynnes, gan greu naws hwyliog, bywiog a gwresog yn y lleoliad. Maent yn sicrhau bod pob plentyn yn derbyn yr un parch a sylw ac yn cael yr un cyfle i gymryd rhan yn yr holl weithgareddau. Trwy gyflwyno adnoddau addas fel doliau a llyfrau amlddiwylliannol, maent yn dechrau addysgu'r plant am amrywiaeth mewn ffordd addas a pherthnasol.

Mae gan y lleoliad gyflenwad buddiol o adnoddau diddorol sy'n ymateb i anghenion y plant yn dda. Mae'r rhain yn cynnwys llyfrau deniadol i gyd-fynd â'r thema, planhigion yn yr ardal darganfod a llysiau go iawn yn y siop. Mae'r ymarferwyr wedi gosod yr ystafell yn ddeniadol, trefnus a phwrpasol. Mae hyn yn galluogi'r plant i ddatblygu eu medrau yn llwyddiannus ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr iddynt estyn adnoddau a gweithio'n annibynnol. Mae yna arddangosfeydd deniadol ar y waliau, sy'n dathlu gwaith y plant ac yn cefnogi eu dysgu yn effeithiol.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio neuadd yr ysgol i ehangu profiadau corfforol y plant yn rheolaidd. Maent hefyd yn gwneud defnydd achlysurol o fuarth a chae'r ysgol er mwyn rhoi cyfle i'r plant weithio yn yr awyr agored. Mae gan y lleoliad ardal allanol ddynodedig eu hunain sydd wedi dirywio yn ddiweddar. Maent wedi cynllunio'n ofalus i wella ansawdd yr ardal hon, ac wedi llwyddo i godi arian i dalu am adnoddau a gwelliannau. Gan fod y gwaith atgyweirio newydd gychwyn, nid oedd mynediad i'r plant yn ystod yr arolygiad. Ar y cyfan, nid yw'r lleoliad yn gwneud defnydd digon da o ymweliadau ac ymwelwyr o'r amgylchedd lleol i gyfoethogi profiadau'r plant.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd yn ymroddedig i gynnig addysg cyfrwng Cymraeg o'r safon gorau i'r plant yn y lleoliad. Mae hi'n gweithio'n bwrpasol ac egnïol gyda'r ymarferwyr, y pwyllgor rheoli, y rhieni, a phartneriaid o'r gymuned leol i gyflawni hyn yn llwyddiannus. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel ohoni hi ei hun, yr ymarferwyr, a'r plant ac mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at ethos trefnus, gweithgar a hwyliog y lleoliad.

Mae'r arweinydd yn sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n eglur ac wedi'u rhannu'n bwrpasol ymhlith yr ymarferwyr. Mae hyn yn eu galluogi i gydweithio'n hapus a llwyddiannus fel tîm clòs gan gefnogi ei gilydd yn effeithiol.

Mae'r arweinydd a'r person cofrestredig yn gweinyddu'r system rheoli perfformiad yn briodol. Maent wedi dechrau monitro safon yr addysgu yn gyson. O ganlyniad, mae hyder yr ymarferwyr yn eu gallu eu hunain wedi cynyddu. Mae hyn wedi eu galluogi i ymgymryd â chyfrifoldebau newydd a gwella safon eu gwaith, er enghraifft wrth ddweud stori neu arwain sesiwn torfol. Fodd bynnag, nid yw deilliannau'r weithdrefn fonitro yn arwain yn naturiol at bennu targedau ar gyfer gwella.

Mae'r lleoliad yn rhoi sylw da i flaenoriaethau cenedlaethol. Mae yna bwyslais rheolaidd ar ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant ym mhob sesiwn. Mae'r arweinydd wedi cofrestru'r lleoliad ar y cynllun cyn-ysgol iach a chynaliadwy ac mae hyn wedi arwain at nifer o welliannau buddiol. Er enghraifft, mae'r plant wedi elwa o'r gwelliannau i'r drefn yn ystod amser byrbryd ac wrth reoli ymddygiad.

Bu aelodau'r pwyllgor rheoli yn cefnogi'r arweinydd yn gyson wrth iddi ddechrau yn ei swydd ddwy flynedd yn ôl. Maent yn parhau i gydweithio'n agos, gan gyfrannu adnoddau a helpu gyda gweithgareddau i godi arian. Mae'r arweinydd yn adrodd yn anffurfiol ar ansawdd gwaith y lleoliad yng nghyfarfodydd rheolaidd y pwyllgor rheoli.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r ymarferwyr yn ymgyfarwyddo'n gynyddol dda â chanllawiau hunanarfarnu'r awdurdod lleol. Maent yn defnyddio ei rhestr wirio mewn ffordd addas i werthuso'r ddarpariaeth, safonau'r plant a'r arweinyddiaeth yn flynyddol. Trwy ddefnyddio holiadur blynyddol Mudiad Meithrin, mae'r lleoliad yn ystyried barn y rhieni yn briodol. Maent hefyd wedi dechrau arbrofi gyda chanfod barn y plant. O ganlyniad i hyn, mae'r ymarferwyr yn datblygu eu hymwybyddiaeth o gryfderau'r lleoliad yn llwyddiannus, yn ogystal â rhai meysydd addas i'w gwella. Fodd bynnag, mae'r gwaith hwn yn gymharol newydd, nid yw'n ddigon arfarnol, nid yw'n nodi effaith ymyraethau ac nid yw wedi cael amser i wreiddio'n llwyr.

Mae gan y lleoliad gynllun datblygu perthnasol, sy'n cynnwys targedau sy'n codi'n briodol o'r hunanarfarniad. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn gweithio tuag at y targedau hyn mewn ffordd ddigon strategol i sicrhau'r cynnydd gorau ym mhob un

ohonynt. Nid yw'r cynllun yn cynnwys camau gweithredu digon eglur, na meini prawf llwyddiant mesuradwy. Nid yw ychwaith yn dyrannu cyllid priodol, nac yn pennu amserlen er mwyn monitro cynnydd yn gyson. O ganlyniad, nid yw'r ymarferwyr yn gallu mesur cynnydd y cynllun datblygu yn ddigon gofalus.

Mae'r arweinydd yn croesawu canllawiau, cyngor a chymorth gan asiantaethau allanol, fel athrawes gyswllt yr awdurdod lleol, gan weithredu'n brydlon ar unrhyw argymhellion. Mae hi wedi gweithio'n bwrpasol tuag at adnewyddu'r ardal allanol, gan lwyddo i ddenu cyllid ac adnoddau er mwyn cychwyn ar y gwaith. Mae'r ymarferwyr yn rhannu'r un bwriad o wella safon y ddarpariaeth ar gyfer y plant. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol, yn enwedig o ran datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ymarferwyr wedi llwyddo i feithrin partneriaethau cryf sydd o fudd i'r lleoliad. Mae ganddo berthynas gadarn gyda'r rhieni a'r gofalwyr. Mae'r rhieni yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd cyson i drafod cynnydd eu plant wrth y drws, yn ogystal â'r wybodaeth a rhennir trwy nodiaduron yn rheolaidd. Maent yn barod i gyfrannu tuag at weithgareddau codi arian ac i ymateb i geisiadau am adnoddau sy'n cyfoethogi gwaith y lleoliad.

Mae'r bartneriaeth gyda'r ysgol gyfagos yn caniatáu i'r plant gael sesiwn ymarfer corff wythnosol yn y neuadd, a hefyd i gyfarwyddo â'r adeilad. Mae hyn yn magu eu hyder cyn iddynt symud i'r cam nesaf yn eu haddysg. Mae yna bartneriaeth gref yn bodoli gyda chymdeithas rhieni ac athrawon yr ysgol, sy'n galluogi'r lleoliad i gymryd rhan mewn gweithgareddau codi arian yn gyson.

Mae'r arweinydd wedi datblygu cysylltiadau gwerthfawr gyda'r gymuned leol. Er enghraifft, mae'r lleoliad yn gwneud defnydd cyson o'r llyfrgell i ddod o hyd i lyfrau o ansawdd da i gefnogi eu themâu. Mae'r ymarferwyr yn elwa'n fawr o'r gefnogaeth gan athrawes gyswllt yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin i wella'r ddarpariaeth ac arweinyddiaeth y lleoliad er budd y plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol.
Gwneir defnydd da o gyfleoedd i ymarferwyr ddatblygu'n broffesiynol, gan gynnwys yr hyfforddiant diweddar ar sut i weithredu proffil y Cyfnod Sylfaen. Mae'r arweinydd yn caffael gwybodaeth a medrau newydd yn rheolaidd drwy ei gwaith tuag at ddatblygu'r cylch yn sefydliad cyn-ysgol iach a chynaliadwy. Mae'r ymarferwyr yn dechrau myfyrio ar eu harfer eu hunain fel rhan o'r broses hunanarfarnu, ond nid ydynt hyd yma bob tro yn adnabod meysydd priodol i'w gwella. Maent yn rhannu arfer dda gyda'i gilydd yn rheolaidd ac yn dechrau rhannu eu gwaith gyda lleoliadau eraill trwy safle cyfathrebu'r Mudiad Meithrin. Fodd bynnag, nid ydynt wedi cael cyfle i ymweld â chylchoedd eraill er mwyn derbyn a rhannu syniadau nac i weld ffyrdd eraill o weithredu ar waith.

Mae system rheoli perfformiad y lleoliad yn datblygu'n briodol gan fodloni anghenion datblygu'r staff yn gynyddol.

Rheolir y gyllideb yn gall, ac mae’r lleoliad yn gwneud yn fawr o bob cyfle i godi arian i gyfrannu at wella ansawdd y ddarpariaeth. Mae’r arweinydd yn gwneud ceisiadau cyson am gymorthdaliadau er mwyn sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o adnoddau dysgu priodol, gan gynnwys offer TGCh.

O ystyried safon yr addysgu, y profiadau dysgu, a’r arweinyddiaeth, mae’r cylch yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i’r holiadur i rieni

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Sheila Birkhead | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |